# Cofnodion Cyfarfod 6/2/2025

**Presennol:** Cyng Dilys Evans, Moira Mai, Eifion Roberts, Eluned Jones, Jacqueline Allen, Ken Edwards, Clare Mackintosh, Rhys Evans a Huw Antur (*Clerc*).

**Ymddiheuriadau:** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng. Fiona Hopkins, Huw Symonds, Sion McGuinness, Eric Williams a Dilwyn Morgan (Aelod Lleol Cyngor Gwynedd).

**Cyhoedd:** Neb yn bresennol.

**Cynllun Wardeinio Gwirfoddol Parc Cenedlaethol Eryri:** Croesawyd Angela Jones (Pennaeth Partneriaethau) ac Arwel Morris (Warden Llyn Tegid) i'r cyfarfod i gyflwyno Cynllun Wardeinio Gwirfoddol y Parc. Nodwyd fod cyfleon gwirfoddoli ar gael, yn bennaf i groesawu ymwelwyr a rhannu gwybodaeth leol, a bod hyn i raddau helaeth yn ffurfioli be sy'n digwydd yn naturiol yn yr ardal. Cytunwyd fod buddion gwahanol i wirfoddoli fel hyn, yn arbennig os yw siaradwyr Cymraeg a dysgwyr yn cydweithio. Nodwyd y byddai hyfforddiant priodol a dillad addas ar gael, ynghyd â chostau teithio os yn briodol, gyda diwrnod hyfforddiant yn cael ei gynnal ddydd Sadwrn Ebrill 12fed. Nodwyd hefyd fod gwirfoddoli i reoli rhywogaethau ymledol yn bosibl, a bod staff y Parc ar gael i arwain ar y gwaith yma. Gofynnwyd i aelodau'r Cyngor Tref i annog pobl leol i wirfoddoli, gan nodi fod ardal Llyn Tegid yn addas i bobol o bob oedran a gallu. Nodwyd fod gwybodaeth bellach ar gael ar wefan y Parc gyda linc ar gael i gofrestru i wirfoddoli. Diolchwyd i Angela ac Arwel am eu cyflwyniad, a dywedodd Angela y byddai'n ail ymweld â'r Cyngor Tref i drafod trefniadau meysydd parcio'r dref. Dywedodd Arwel fod y gwaith o docio rhododendron ar Domen y Bala yn dod yn ei flaen yn dda, a bod torri coed yn ardal y llyn ar raglen waith staff y Parc.

1. **Y Maer:** Estynnwyd croeso i bawb i'r cyfarfod gan y Maer, y Cyng Dilys Evans, ac fe gyfeiriodd iddi gynrychioli'r Cyngor Tref yng Nghyngerdd Cor Godre'r Aran, a bod cynrychiolaeth o'r Cyngor Tre wedi mynychu Clwb Cinio Cymdeithas Gymunedol y Bala.
2. **Buddiant:** Nid oedd datganiad o fuddiant.
3. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion cyfarfod 2/1/25.
4. **Materion y Clerc / Materion yn codi:**

    i. Tomen y Bala: Derbyniwyd llythyr gan Glwb Rotari'r Bala ynghyd â lluniau o fainc yr hoffent eu gosod ar y Domen. Nodwyd y byddai angen i'r fainc fod o wneuthuriad plastig, neu fod y Clwb Rotari yn cymryd cyfrifoldeb am y fainc os yw o wneuthuriad arall. Cytunwyd fod angen i'r ysgrifen ar y fainc fod yn

Gymraeg. Cafwyd gwybodaeth hefyd fod meinciau sy'n eiddo i'r Cyngor Tref wedi eu storio ger y Clwb Rygbi, a gwnaed trefniadau i'w symud yn ôl i ardal y Domen.

ii. Cynllun Celf Canol Trefi: Derbyniwyd holiadur i'w gwblhau yn dilyn creu murlun ar wal y Coop, ond nid oedd y linc yn weithredol i gael mynediad at yr holiadur.

iii. Cynllun Creu Lle – nodwyd y bydd cyfarfod i drafod y cynllun ar Fawrth 10fed, a gofynnwyd i'r cynrychiolwyr arferol i fynychu'r cyfarfod.

iv. Lloches Bws ger Cae Croes: Penderfynwyd gofyn i Adran Priffyrdd Gwynedd i osod panel gwydr yn y lloches bws.

5. **Cyngor Gwynedd:** Nid oedd y Cyng Dilwyn Morgan yn bresennol yn y cyfarfod.

6. **Y Bala – Yma o Hyd:** Cafwyd adroddiad ariannol oedd yn nodi fod cyfanswm o £5,096 wedi ei wario ar y dathliadau, ond fod £600 o nawdd wedi ei dderbyn, a bod incwm tocynnau o £820 yn lleihau'r gost derfynol. Diolchwyd i bawb am eu gwaith, ac fe gytunwyd i hyrwyddo a harddu'r dref gyda gweddill cyllideb y prosiect. Cytunwyd fod angen rhoi linc i'r arddangosfa a baratowyd gan Cantref ar wahanol wefannau'r dref, gan sicrhau hygyrchedd y gwefannau. Cytunwyd fod angen diweddaru gwefan Visit Bala, a gofynnwyd i'r Is bwyllgor Twristiaeth Gynaliadwy i ystyried hyn.

7. **Is-bwyllgorau:**

Is Bwyllgor Asedau: Nodwyd fod angen trefnu asesiad o gyflwr a diogelwch asedau'r cyngor yn y dref.
Is bwyllgor Tref Gyfeillgar: Derbyniwyd cyfres o luniau yn dangos y gwahanol broblemau gyda sianeli dwr a slabiau ar balmentydd y dref. Cytunwyd i'w trafod gyda'r Cyng Dilwyn Morgan ac i gytuno ar y ffordd ymlaen. Trafodwyd hefyd y syniad o ddynodi'r Bala fel tref dementia gyfeillgar, ac fe gytunodd y Cyng Clare Macintosh i wneud ymchwil pellach i hyn. Nodwyd nad yw'r fainc ger Siop Ria wedi dychwelyd.
Is Bwyllgor Bioamrywiaeth: Nodwyd fod yr is bwyllgor i gyfarfod yn fuan.

**Cynrychiolwyr ar fudiadau:**

Cwmni Pum Plwy Penllyn: Adroddwyd fod y gwaith ar Ganolfan Bro Tegid yn dod yn ei flaen yn dda, a bod y cwmni am barhau i gyhoeddi'r Cyfnod yn wythnosol.
Cymdeithas Gymunedol y Bala a Phenllyn: Adroddwyd i gynrychiolaeth o'r Cyngor Tref fynychu Clwb Cinio'r gymdeithas, er mwyn gweld y ddarpariaeth a'r budd a ddaw ohono. Cytunwyd i roi rhodd i'r gymdeithas o Gronfa'r Maer.
Grŵp Siopau'r Bala: Cytunwyd i holi'r grŵp ymhellach am drefniadau'r Noson Siopa Hwyr i'r dyfodol.

8. **Materion Cynllunio**: Derbyniwyd cais cynllunio NP5/53/106R i adeiladu 10 lle parcio ger unedau 18&19 Parc Menter y bala. Cytunwyd i gefnogi'r cais.

9. **Materion Cyllid:**

   i. Ystyriwyd y sefyllfa ariannol ddiweddaraf, a nodwyd fod £9,489.49 yn y cyfri cyfredol, £26,691.54 yn y cyfri cadw a £576.50 yng Nghronfa'r Maer. Cytunwyd i ryddhau'r £3,000 a glustnodwyd i'r Clwb Hoci ar gyfer datblygiad y Cae Astro gan fod y gwaith ar fin cychwyn.
   ii. Cymeradwywyd taliadau am lanhau Llochesi Bws, taliad cyflog y Clerc, anfoneb torch Nadolig ac anfoneb y Cyfnod am hysbyseb cyfarchiad Nadolig y cyngor. Cytunwyd i wirio manylion anfoneb Cyngor Gwynedd am osod y goleuadau Nadolig.
   iii. Cytunwyd i ystyried ceisiadau am gymorth ariannol gan fudiadau'r dref yng nghyfarfod mis Mawrth o'r cyngor.

**10. Gohebiaeth:**

i) Fforwm Ieuenctid Gwynedd: Derbyniwyd holiadur i'w gwblhau.
ii) Tim Tacluso Ardal Ni: Derbyniwyd gwybodaeth y bydd y tîm yn y dref ar W/C Chwefror 10fed.
iii) Cynhadledd Economi Ymweld Gwynedd: Derbyniwyd gwybodaeth am y gynhadledd.
iv) Un Llais Cymru: Derbyniwyd gwybodaeth am holiadur Pwyllgor Ardal, Arolwg Cymunedol ac am Gyfarfod Blynyddol y gymdeithas.
v) Ysgol Ddeintyddiaeth Bangor: Cytunwyd i gefnogi'r ymgyrch i sefydlu'r Ysgol Ddeintyddiaeth.
vi) Uchelgais Gogledd Cymru: Derbyniwyd Ymgynghoriad Trafnidiaeth Ranbarthol.
vii) Parc Cenedlaethol Eryri: Derbyniwyd gwybodaeth fod Awdurdod y Parc wedi cytuno i gadarnhau cyfarwyddyd Erthygl 4 fydd yn rheoli'r defnydd o dai preswyl o fewn y Parc.

11. **Materion lleol y Cynghorwyr Tref:**

Nid oedd materion i'w trafod.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.30pm a bydd y cyfarfod nesaf Nos Iau 6 Mawrth 2025.



ARWYDDWYD.....................................................(MAER) / / .....................................(CLERC)